# Addysg / Education

Moderneiddio Addysg
*Modernising Education*

☎ (01286) 679247 Ein Cyf / Our Ref: Cynyddu Capasiti Ysgol Chwilog
Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
*Modernisingeducation@gwynedd.llyw.cymru*

**At sylw**: Holl ymgynghorai yn gysylltiedig â'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog

Annwyl Ran-ddeiliad,

***Par.:** Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddysgwyr ar 1 Medi 2023*

Ar ddydd Mawrth, 24 Ionawr 2023 penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd gyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig *'i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth o 1 Medi 2023'.*

Yn unol â'r penderfyniad, cyhoeddwyd rhybudd statudol a chynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu rhwng 8 Chwefror ac 8 Mawrth 2023. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.

**O ganlyniad, ar 15 Mai 2023, penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig uchod drwy Daflen Benderfyniad a gyhoeddwyd gan Aelod Cabinet Addysg, Cyngor Gwynedd.**

Wrth benderfynu ar y cynnig, bu i'r asesiadau canlynol gael eu hystyried yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018): *Cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol, Llesiant, y gymuned, Ansawdd a safonau addysg, a Threfniadau teithio.*

Amlinellir isod y rhesymau dros gymeradwyo'r cynnig, yn unol â'r ffactorau penodol a nodir yn adrannau 1.3 i 1.6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018:

**Ansawdd a safonau mewn addysg:**

- Mynegodd Estyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad statudol y byddai'r *"cynnig yn debygol o gynnal y safonau cyfredol o leiaf o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth".*
- Rhagwelir y bydd gweithredu'r cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol drwy greu dosbarth ychwanegol yn cefnogi'r ysgol i wella ansawdd a safonau mewn addysg am y rhesymau a ganlyn:
    i. bydd yn cynnig gwell amgylchedd dysgu i staff addysgu a dysgwyr yr ysgol
    ii. bydd dysgwyr yr ysgol yn derbyn gwell profiadau addysgol a chyfleoedd
    iii. bydd dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda niferoedd mwy addas

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:**

- Bydd gweithredu'r cynnig yn arwain at ychwanegu dosbarth yn Ysgol Chwilog, ac o ganlyniad byddwn yn gallu cynnig lle i fwy o blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir.
- Yn Medi 2022, roedd 84 dysgwr yn yr ysgol, a chapasiti'r ysgol yn 65. O ganlyniad i weithredu'r cynnig bydd capasiti ar gyfer 95 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 gydag 13 lle meithrin rhan amser.

**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill:**

- Mae'r cynnig hwn ynghlwm â'r buddsoddiad cyfalaf diweddar i ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog.
- Gan ychwanegu dosbarth a chynyddu capasiti'r ysgol, gellir sicrhau llefydd ychwanegol ar gyfer addysgu plant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir.

**Ffactorau cyffredinol eraill:**

- Rhagwelir y bydd cynyddu capasiti Ysgol Chwilog yn cael effaith bositif ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac economaidd-gymdeithasol drwy greu llefydd ychwanegol i blant cynradd y dalgylch gan greu seilwaith gadarn ar gyfer y gymuned a chreu'r amodau gorau i'r iaith Gymraeg a ffyniant y gymuned. O ganlyniad, bydd plant y dalgylch yn gallu derbyn addysg yn eu cymuned, gan gyfrannu at ffyniant yr iaith Gymraeg mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol.

Os ydych angen gwybodaeth bellach, croeso i chi gysylltu gyda ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

Yn gywir,



Gwern ap Rhisiart
**Pennaeth Addysg**
**Cyngor Gwynedd**